Cymdeithas Dehongli Treftadaeth

“ahi

Canllaw Arfer Gorau 19

# Canllaw arfer gorau ar ddehongliad treftadaeth LHDTCRhA+

Simon Banos, Storm Greenwood, E-J Scott, Norena Shopland, Steve Slack, Sabrina Willekens and Choon Young Tan




**Ionawr 2026**
*Ar gyfer sgriniau – dim angen eu hargraffu*

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn ar ddehongli treftadaeth LHDTCRhA+ wedi'i anelu at ystod o ddehonglwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau treftadaeth, gydag unrhyw gyllideb. P'un a ydych yw dehongli LHDTCRhA+ yn newydd i chi, neu a oes gennych chi gyfoeth o brofiad, gobeithiwn bydd y canllaw hwn o ddiddordeb ac o ddefnydd i chi.

Mae treftadaeth gwiar yn faes eang a byddai'n amhosibl, ac yn annoeth, cynnig ond un ffordd o'i dehongli. Roedd y dehonglwyr a greodd y canllaw hwn yn ymwybodol na ddylai'r cyngor hwn fod yn rhagnodol nac yn fformiwlaidd. Ac felly ni chewch chi restr o bethau i'w gwneud â'u hosgoi ac nid oes prawf sydd rhaid i bobl sy'n ei ddarllen ei basio. Bwriad y cwestiynau sy'n ffurfio'r canllaw yw ysgogi sgyrsiau cadarnhaol ac adeiladol gyda'ch cydweithwyr. Gobeithiwn y gallai'r detholiad o astudiaethau achos ar ddiwedd y canllaw ysbrydoli eraill.

**Pob lwc ar gyfer eich prosiect dehongliad treftadaeth LHDTCRhA+.**




Queer Britain © Rahil Ahmad a QBM

# Geirfa

Os yw gweithio gyda phobl a threftadaeth LHDTCRhA+ yn newydd i chi, efallai na fyddwch chi'n gyfarwydd â rhai o'r geiriau ac acronymau. Rydym wedi darparu'r geirfa fer hon sy'n dangos sut y gellir diffinio rhai o'r geiriau a ddefnyddir amlaf.

Mae sut rydym yn defnyddio iaith yn newid yn gyson ac mae'n bosibl bydd rhai o'r termau rydym wedi'u cynnwys yma yn cael eu herio gan bobl LHDTCRhA+. Dyma restr o derminoleg fodern, a ddarperir yma fel offeryn cyfeirio ac a allai hyd yn oed fod allan o ddyddiad erbyn i chi ei darllen. Efallai byddwch hefyd yn dod ar draws mwy o dermau sy'n wahanol, neu'n cael eu defnyddio'n wahanol, yn enwedig yn y cofnod hanesyddol. hyn – ac unrhyw rai rydych chi'n eu creu ar gyfer gweithwyr proffesiynol dehongli eraill neu ymwelwyr – yn cael eu cadw'n gyfredol trwy sgwrsio â phobl LHDTCRhA+ a thrwy ymgynghori'n barhaus â'ch cynulleidfaoedd.

**L** — **Lesbiaidd** – menyw sy'n cael ei denu'n rhywiol a/neu'n rhamantus at fenywod eraill.

**H** — **Hoyw** – person sy'n cael ei ddenu'n rhywiol a/neu'n rhamantus at bobl o'r un rhyw

**D** — **Deurywiol** – person sy'n cael ei ddenu'n rhywiol a/neu'n rhamantus at bobl o ddau ryw neu fwy

**T** — **Traws** – term ymbarél i gynnwys dynion a menywod traws, pobl anneuaidd, pobl rhyweddhylifol a phobl nad ydynt yn cydymffurfio â rhywedd

**C** — **Cwiar** – term ymbarél wedi'i adfer sy'n disgrifio sbectrwm o ddewisiadau a chyfeiriadau rhywiol

**Rh** — **Intersex** – (historically hermaphrodite) someone whose sex characteristics do not fit into binary gender definitions

**A** — **Arywiol** – person sy'n profi ychydig iawn o atyniad rhywiol neu ddim atyniad rhywiol o gwbl. Gall pobl anrywiol deimlo atyniad rhamantus

**+** — **Yr arwydd plws** – yn cydnabod sbectrwm o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd ychwanegol

(Nid yw'r llythrennau LHDTCRhA+ wedi'u safoni, hyd yn oed. Efallai hoffech chi ddewis pa rai i'w cynnwys yn eich gwaith eich hun a beth sy'n fwyaf addas i'ch partneriaid cymunedol chi.)

# Geirfa ychwanegol

Rhai termau eraill efallai y byddwch chi'n dod ar draws wrth weithio gyda phobl LHDCTRhA+:

**Lluniwyd yr eirfa hon gyda chyfeiriad at:**

- Canllaw arfer gorau LHDTCRhA+ ar gyfer Orielau, Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd DU (Cymdeithas yr Amgueddfeydd)
- ‘Trans Inclusive Cultural Guidance’ ar wella cynhwysiant traws ar gyfer amgueddfeydd, orielau, archifau a sefydliadau treftadaeth (RCMG Caerlŷr)

**Cydryweddol**

Term am bobl nad ydynt yn drawsryweddol sy'n disgrifio person sydd â hunaniaeth rhywedd sy'n cyd-fynd â'u rhyw biolegol.

**Rhywedd**

Ymdeimlad person o fod yn wryw, yn fenyw, neu – i'r rhai sy'n disgrifio eu hunain fel cwiar o ran eu rhywedd – gall hyn hefyd olygu ymdeimlad nad yw person y naill na'r llall, y ddau, neu'n rhyweddhylifol.

**Heteronormatifrwydd**

Y dybiaeth y gellir categoreiddio pobl o fewn deuaidd rhywedd sy'n cynnwys atyniad rhywiol a/neu ramantus at bobl o'r rhyw 'gyferbyniol'.

**Homoffobia / Trawsffobia / Deuffobia**

Ofn, casineb neu gamdrin afresymol o bobl hoyw, trawsryweddol a/neu ddeurywiol.

**Croestoriadedd**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ffyrdd y mae sefydliadau gormesol (hiliaeth, rhywiaeth, homoffobia, trawsffobia, deuffobia, ablaeth, senoffobia, dosbarthiaeth, ac ati) wedi'u cydgysylltu/cymodi a gallant effeithio ar bobl sydd wedi'u hymylu yn y gymdeithas. Gallai hyn hefyd ddisgrifio perthyn i fwy nag un grŵp hunaniaeth lleiafrifol dan orthrwm.

**Anneuaidd**

Term ymbarél ar gyfer pobl nad sy'n uniaethu o fewn ideolegau rhywedd deuaidd.

**Rhagenwau**

Rhagenwau rhywedd y gall pobl eu defnyddio i ddisgrifio eu hunain: ef, ei; hi; nhw, eu (rhywedd-niwtral).

**Nodweddion gwarchodedig**

Mae naw nodwedd warchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb y DU. Mae yn erbyn y gyfraith gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

**Rhyw**

Wedi'i aseinio adeg genedigaeth mewn perthynas â hormonau ac organau rhyw allanol a mewnol.

**Trawsnewid**

Y weithred o newid o un rhyw i'r llall.

# 8 cwestiwn (a mwy)

## I'w hystyried wrth drefnu a darparu prosiect dehongliad treftadaeth LHDTCRhA+

Mae ein canllawiau i ddehonglwyr treftadaeth yn canolbwyntio ar wyth cwestiwn – a phynciau eraill sy'n deillio ohonynt. Nid oes gan y rhain atebion cywir neu anghywir. Yn hytrach, rydym yn annog darllenwyr y canllaw hwn a'u cydweithwyr i ystyried pob un o'r cwestiynau hyn fel ysgogiadau ar gyfer sgyrsiau adeiladol, trafodaethau agored a hyd yn oed rhywfaint o ddadl. Dylai eich atebion rhoi hyder i chi bod eich gwaith yn seiliedig ar feddylfryd dehongli cadarn.

Efallai byddwch chi am gynnal gweithdy neu gyfarfod (yn bersonol neu ar-lein) i drafod y cwestiynau hyn a beth maen nhw'n eu golygu i chi. Efallai bod gan rai o'r cwestiynau hyn atebion hawdd rydych chi wedi gweithio arnyn nhw o'r blaen – efallai bydd eraill yn cymryd ychydig yn hirach. Chi sydd i benderfynu sut rydych chi'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd mewnol ac allanol gyda'r cwestiynau hyn a sut rydych chi'n dogfennu eich ymatebion iddynt – rydym yn eich annog i fod mor greadigol ag y dymunwch gyda nhw.

**Drosodd i chi...**

Llun: Amgueddfa Perth © Amgueddfa Perth a Sally Jubb



# 1

## Ble i ddechrau?

Os nad ydych chi wedi gweithio ar brosiect dehongliad treftadaeth LHDTCRhA+ o'r blaen, peidiwch â phoeni. Gallai ymddangos yn frawychus i ddechrau, ond mae'n werth cofio bod pawb (a phob sefydliad treftadaeth) yn dechrau yn rhywle, yn aml gyda chamau bach i ddechrau. Mae llawer o bobl wedi darganfod, wrth iddyn nhw dyfu mewn hyder, y gall y camau hynny ddod yn gamau mwy a hyd yn oed yn neidiau'n fuan.

### Ein cyngor:

Peidiwch â bod ofn adnabod nad ydych chi'n gwybod rhywbeth. Mae'n well i ofyn am gyngor na dyfalu neu wneud rhagdybiaethau.

**Mae awgrymiadau allweddol yn cynnwys:**

- Pa waith ydych chi wedi'i wneud yn y gorffennol sy'n ymwneud â'r gymuned LHDTCRhA+?
- Beth wnaeth gweithio'n dda a beth y gellid ei wella?
- Pa brosiectau dehongli eraill ydych chi wedi'u cyflwyno neu eu profi a oedd yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u hymylu?
- A oes etifeddiaeth o drawsffobia neu homoffobia yn eich sefydliad, casgliad neu safle treftadaeth? (Mae bron yn sicr y bydd yna, yn rhywle.)
- Sut allwch chi gydnabod meddyliau, arferion a naratifau'r gorffennol wrth adeiladu dyfodol cadarnhaol i ddehongli treftadaeth LHDTCRhA+ yn eich safle?
- Sut all gwaith ddehongli dadwneud, gwyrdroi neu ddad-ddysgu arferion o'r gorffennol?
- A all eich gwaith 'cwiario' meddyliadau heteronormaidd blaenorol?
- Pa arbenigedd sydd gennych chi'n fewnol a phwy allai eich helpu i symud y trafodaethau ymlaen yn hyderus? A phwy all eich helpu chi i ddeall yn well?

# 2

## Sut fyddech chi'n rhoi gofal yn eich gwaith?

Mae'r thema o ofal yn rhedeg drwy'r canllaw hwn. Yn y pen draw, rydyn ni'n argymell dod ag agwedd gofalgar a meddylgar i ddehongli treftadaeth – i'ch proses o'i greu ac i'r canlyniad terfynol. Yn aml, mae bywydau a hanesion pobl LHDTCRhA+ wedi'u gwreiddio mewn profiadau byd gelyniaethus, a rhaid trin dehongli â sensitifrwydd.

**Ystyriwch:**

- Sut ydych chi'n gofalu am ymwelwyr a chynghreiriaid LHDTCRhA+?
- Sut ydych chi'n gofalu am eich safle neu gasgliad?
- Sut ydych chi'n gofalu am gyfranogwyr?
- Sut ydych chi'n gofalu i'r rheiny rydych chi'n adrodd eu straeon, p'un a ydyn nhw'n fyw ai peidio.
- Sut ydych chi'n gofalu am eich staff blaen y tŷ a thu ôl i'r llenni.

**Ein cyngor:**

Byddwch yn garedig i'ch hunain. Efallai byddwch chi'n gwneud camgymeriadau, ond gall pob stori LHDTCRhA+ a rennir alluogi rhywun i weld ei hun yn cael ei adlewyrchu mewn treftadaeth – profiad a allai newid bywyd.



3

## Pa dirwedd ydych chi'n gweithio ynddi?

Mae’r cyngor ynglŷn â phobl LHDTCRhA+ yn newid a’n gallu teimlo’n ansicr weithiau. Mae llawer o gyngor i gael, ond mae’n gallu bod yn ddryslyd. Mae rhaid sefydliadau treftadaeth wedi bod yn amharod i ymgysylltu â threftadaeth cwiar, tra bod eraill wrth eu modd â amlygu straeon LHDTCRhA+. Mae ymgysylltiad llwyddiannus â phobl LHDTCRhA+ wedi'i wreiddio mewn gwerthoedd cryf, fframweithiau moesegol ac arweinyddiaeth sefydliadol glir.

**Ystyriwch:**

- Pa fframweithiau cyfreithiol sy'n berthnasol i chi? (Maen nhw’n wahanol yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban, Iwerddon a Gogledd Iwerddon.)
- Beth yw gwerthoedd, cenhadaeth a gweledigaeth eich sefydliad?
- Sut fyddech chi'n gwneud datganiad cymorth?
- Sut fyddech chi'n osgoi dulliau perfformiadol neu ddulliau sydd ond yn ticio blychau?
- Sut fyddech chi’n cynnal dull moesegol i’r dehongliad trwy gydol bywyd y prosiect a thu hwnt?
- Sut fydd dehongliad LHDTCRhA+ yn cydfynd â'ch cynnwys presennol? A’i fydd yn barhaol?

### Ein cyngor:

Cymerwch eich amser i feddwl drwodd yr ystyriaethau moesegol, fframweithiau cyfreithiol a heriau ymarferol o ddehongliad LHDTCRhA+, ac i hefyd fod yn agored i’r newid positif sy’n dod o ymgysylltu â threftadaeth.

# 4

## Sut fyddech chi'n cynnwys pobl yn eich proses?

Crëir y dehongliad gorau nid trwy bobl yn eistedd ar ben eu hun wrth eu desgiau, ond trwy ymarfer cynhwysol. Wrth ddod â safbwyntiau ffres a lleisiau allanol i'ch sefydliad a dehongliad, bydd eich gwaith yn fwy dilys a pherthnasol i fydywau pobl LHDTCRhA+. Mae cynnwys pobl yn eich gwaith yn cymryd amser ac ymdrech, ac eisiau cydnabyddiaeth, ond mae'n sicr yn werth yr ymdrech.

**Cyn i chi wahodd pobl i gymryd rhan yn eich gwaith, ystyriwch...**

- Beth ydych chi'n gwybod neu ddim yn gwybod am eich cynulleidfaoedd?
- Beth all eich staff blaen y tŷ dweud wrthych chi am beth mae ymwelwyr yn meddwl am faterion LHDTCRhA+?
- Sut fyddech chi'n cadw pobl LHDTCRhA+ (cynulleidfaoedd, defnyddwyr, ymwelwyr, ayyb) yng nghalon beth rydych chi'n wneud?
- Pwy yw'r bobl gorau i'w chynnwys?
- A fyddech chi'n gweithio gyda grŵp sy'n hawdd eu cyrraedd neu grŵp mwy penodol?
- Sut fydd pŵer ac awdurdod yn cael eu rhannu?
- Sut fyddech chi'n galluogi aelodau'r cymuned i herio neu feirniadu cynrychiolaeth ohonyn nhw yn y dehongliad?
- Sut fydd cyfranwyr yn cael eu cydnabod a'u talu?
- Os ydych chi'n gofyn i staff LHDTCRhA+ i gymryd rhan, a fydd hynny ar ben y gwaith maen nhw'n eu gwneud yn barod?
- Beth sy'n digwydd i berthnasoedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben?

**Ein cyngor:**

Cadwch yr ymadrodd "dim byd amdanom ni hebom ni" mewn meddwl wrth greu dehongliad treftadaeth LHDTCRhA+.

Mae gan y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth canllaw arfer gorau arall ar Ddehongli ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant **(Canllaw rhif. 14)**

# 5

## Sut fyddech chi'n defnyddio geiriau a delweddau?

Mae iaith yn bwysig. Mae'n newid yn gyson ac mae'r eirfa a diffiniadau o eiriau yn newid dros amser. Efallai bod iaith a ddefnyddiwyd yn y gorffennol wedi cael ei herio – ac efallai na fydd y geiriau rydyn ni'n dewis eu defnyddio heddiw yn addas yn y dyfodol. Gall delweddau hefyd atgyfnerthu stereoteipiau os nad yw'n cael eu defnyddio'n feddylgar. Mae trionglau pinc a fflagiau enfys yn symbolau adnabyddus, ond gall cael eu defnyddio gormod ac nid ydyn nhw'n cynrychioli pawb trwy'r amser.

Ond mae rhai sefydliadau mor ofnus o gael dehongliad LHDTCRhA+ yn 'anghywir,' nad ydyn nhw'n gallu gwneud unrhywbeth. Yn lle dychryn dros ddweud y peth iawn, siaradwch y gwir, neu gofynnwch i rywun sy'n fwy hyderus neu brofiadol (ond gwnewch yn siŵr i dalu nhw am eu gwaith).

- A fyddech chi'n darparu diffiniadau neu eirfa?
- A yw eich iaith yn ddigon gynhwysol?
- Sut fydd pobl LHDTCRhA+ yn helpu i lunio geiriau a delweddau?
- Sut fydd y dehongliad yn cael ei ddiweddaru dros amser?
- Sut fyddech chi'n dangos yr amrywiaeth o bobl sy'n hunaniaethu'n LHDTCRhA+?
- Pa ddylanwadau dylunio LHDTCRhA+ y gallech eu defnyddio heb ddefnyddio cliches?




Museum of the Home © Steve Slack

### Ein cyngor:

Rhannwch ddrafftiau o'ch geiriau a gwaith dylunio gyda phobl LHDTCRhA+. Gofynnwch am eu hymatebion onest a pheidiwch fod ofn gwneud golygiadau i wella'r canlyniadau.

Mae gan y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth canllaw arfer gorau ar ysgrifennu deongliadol **(Canllaw rhif. 7)**

# 6

## Sut fyddwch chi'n sicrhau dilysrwydd?

Mae dehongliad dilys wedi'i seilio ar brofiad byw ac yn cael ei drin yn ofalus. Mae'r dehongliad mwyaf dylanwadol yn hynod o bersonol. Mae pobl LHDTCRhA+ yn arwain pob math o fywyd ac mae dehongliad treftadaeth yn lle gwych i rannu'r amrywiaeth o brofiadau go iawn.

Pan rydyn ni'n gwreiddio ein gwaith yn y profiad byw, mae'n rhoi dynoliaeth a dilysrwydd i'r gwaith. Ond mae rhannu naratifau go iawn yn dod gyda chyfrifoldeb i'r bobl sy'n cael eu cynrychioli. Mae'r record hanesyddol wedi'i phoblogi gan sawl stori o erledigaeth, camdriniaeth a throseddoli. Ond does dim rhaid gorliwio straeon ein bywyd. Mae dim ond angen eu hadrodd.

- A yw straeon yn gywir ac wedi'u cydsynio?
- Sut all dyfyniadau, erthyglau, eitemau archifol a lluniau person cyntaf cefnogi'r stori rydych chi'n ddweud?
- Oes gennych chi ganiatâd pawb yn y prosiect i ddangos eu stori? Ydych chi'n hyderus nad ydych chi'n owtio pobl heb eu cydsyniad?
- Sut fyddwch chi'n gwarchod cyfrinachedd rheiny nad sydd eisiau eu henwau wedi'u rhannu?
- Ydych chi'n osgoi rhagdybiaethau a chyffrogarwch?
- Sut fyddwch chi'n adrodd straeon cymhleth a difrifol yn eich dehongliad treftadaeth mewn ffordd sy'n gwneud cyfiawnder i brofiad byw a hefyd sy'n hygyrch i bawb?
- Sut fyddwch chi'n cydbwyso llawenydd a brwydrau?
- Sut fyddwch chi'n mynd i'r afael â thrawma yn gyfrifol?

Gallery of Modern Art, Glasgow © Steve Slack




**Ein cyngor:**

Arhoswch yn driw i'r ffeithiau. Does dim angen gorliwio realiti na ychwanegu drama. Mae'r stori yn ddigon pwerus.

# 7

## Sut all pobl ymateb a rhoi adborth?

Mae adborth yn hanfodol wrth ddeall effaith. Does dim pwynt creu dehongliad LHDTCRhA+ i ymwelwyr os nad ydych chi'n gwybod yr effaith arnyn nhw. Wrth gynllunio eich dehongliad, rydyn ni'n argymell cynnwys dolen adborth - proses lle gall pobl dweud wrthych chi beth maen nhw'n meddwl. Mae ymwelwyr yn teimlo lefel ychwanegol o ymgysylltiad pan maen nhw'n cael eu gwahodd i roi eu hymateb, ac yn aml, mae yna syniadau gwych neu ysbrydoliaeth i beth gallech chi wneud nesaf.

- Sut all ymwelwyr rannu ymatebion, ar y safle ac ar-lein?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau dulliau adborth hygyrch?
- Heblaw am holiaduron papur, gallech chi feddwl am ffyrdd creadigol ac atyniadol i ymwelwyr gadael i chi gwybod am eu barn a syniadau?
- A oes gofod adborth agored lle gall ymwelwyr fynegi eu hunain – lle gallant dynnu llun o syniad, ysgrifennu cerdd neu adael ffordd arall o adborth?
- Oes gan ymwelwyr y cyfle nid yn unig i ymateb, ond hefyd i ddweud wrthych chi beth hoffen nhw eich gweld chi'n ei wneud nesaf?
- A all ymwelwyr herio'r dehongliad yn ddiogel ac awgrymu newidiadau?
- Ydych chi wedi dyrannu digon o gyllideb i gynnal gwerthusiad cadarn?
- Oes amser i chi ddadansoddi'r canlyniadau ac i fyfyrio arnynt, felly gallech chi effeithio ar waith eich sefydliad yn y dyfodol?
- Sut fyddwch chi'n rhoi gwybod i'r cymunedau rydych chi wedi gweithio gyda nhw sut aeth y prosiect?
- A fyddwch chi'n gwahodd adborth sy'n wir yn feirniadol a'n adeiladol?

### Ein cyngor:

Byddai'n drueni casglu gwybodaeth gan eich cynulleidfaoedd ac yna gwneud dim byd â hi. Cynlluniwch sut y gall ymatebion i'ch dehongliad gael effaith ar bolisïau, arferion a gwaith deongliadol yn y dyfodol.



Mae gan y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth canllaw arfer gorau 'Demistifying Evaluation' **(Canllaw rhif. 12)**

# 8

## Ydych chi'n barod am ymatebion negyddol?

Yn anffodus, mae prosiectau dehongliad LHDTCRhA+ weithiau yn cael adlach, sylwadau ddi-gymorth neu sylw negyddol yn y cyfryngau ac arlein. Gall treftadaeth gwiar cael ei defnyddio fel pêl-droed gwleidyddol a denu'r sylw anghywir. Nad yw creu dehongliad LHDTCRhA+ yn sicr yn golygu byddwch chi'n cael adborth anghefnogol, ond mae'n werth paratoi am y posibilrwydd o sylwadau negyddol felly gallech chi gynllunio ymateb da.

- Sut fyddwch chi'n paratoi eich sefydliad a'ch staff am sylwadau beirniadol?
- Sut allwch chi gefnogi'r rhai sy'n siarad ag ymwelwyr bob dydd i'w galluogi i ateb cwestiynau gan y cyhoedd am ddehongli LHDTCRhA+?
- Sut i wahaniaethu rhwng beirniadaeth a chasineb?
- Sut gellir cyflwyno ymateb i feirniadaeth nid yn unig fel amddiffyniad o'ch gwaith, ond hefyd fel datganiad o'r hyn rydych chi'n ei gredu?
- Allwch chi ddefnyddio deialog gyda'ch beirniaid fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth adeiladol am y dyfodol?
- Ydych chi'n glir ynglŷn â'ch cylch gwaith a'ch rhwymedigaethau cyfreithiol a sefydliadol?
- A oes gan eich sefydliad fecanweithiau cymorth ar gyfer staff sy'n ateb ymholiadau? A yw'r holl staff yn gwybod sut i ymateb a phryd i uwchgyfeirio adborth?

### Ein cyngor:

Ymdriniwch â rhagfarn a dicter gyda phen lefel, nid un blin (hyd yn oed os ydych chi eisiau sgrechian). Drwy wybod eich safbwynt a deall eich gwerthoedd (gweler tudalen 8), byddwch mewn gwell sefyllfa i greu amddiffyniad cryf o'ch gwaith. Safwch eich tir a byddwch yn gadarn wrth ddweud wrth y byd nad yw eich sefydliad yn llwyfan ar gyfer iaith gasineb.



Museum of Transology © Steve Slack

# Treftadaeth LHDTCRhA+

# Astudiaethau achos dehongliadau

Dewiswyd y detholiad hwn o brosiectau i gynrychioli rhywfaint o'r ystod eang o ddehongli sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf – dan do ac yn yr awyr agored; gyda chyllidebau mawr a bach; dros dro a pharhaol. Mae sut cymaint yn digwydd mewn safleoedd treftadaeth ledled y wlad ac rydym wedi gorfod gadael mas prosiectau gwych oherwydd diffyg lle. Efallai y bydd rhywbeth yma yn dal eich sylw neu'n ysbrydoli eich gwaith yn y dyfodol.





Queer Britain
© Dan Vo a Queer Britain

# Arddangosfa Ungorn
## Amgueddfa Perth

Archwiliodd yr arddangosfa dros-dro hon yn 2024 stori anifail cenedlaethol yr Alban, a grëwyd i gyd-fynd ag agoriad Amgueddfa Perth. Integrodd chwe gwaith celf newydd eu comisiynu yn archwilio'r ungorn fel symbol modern o'r gymuned LHDTCRhA+ ochr yn ochr â chasgliadau amgueddfeydd a benthyciadau amlwg.

Dyma oedd yr arddangosfa gyntaf yn yr amgueddfa i ganolbwyntio ar straeon cwiar, ac enillodd Wobr Hyrwyddo Cyfiawnder Cymdeithasol 2024 gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd.

**perthmuseum.co.uk/inside-the-museum/previous-exhibitions/unicorn/**



© Julie Howden

# 10 Years of the Museum of Transology
## Museum of Transology

Trancestry Roedd yr arddangosfa hon yn 2025 yn ddathliad o ddegawd o gasgliad mwyaf arwyddocaol y DU o wrthrychau yn cynrychioli bywydau pobl draws, anneuaidd a rhyngrywiol. Gan gynnwys cannoedd o eitemau a roddwyd, ffurfiodd Trancestry gasgliad enfawr o straeon personol, wedi'u seilio ar brofiad bywyd go iawn. Mae;r Amgueddfa yn parhau i gasglu gwrthrychau, wrth ddweud: "Byddwn yn ysgrifennu ein hunain yn ôl i hanes, ar ein telerau ein hunain, yn ein geiriau ein hunain."

**museumoftransology.com**




© Steve Slack

# Teithiau oriel LHDTC Amgueddfa V&A

Bob mis, mae gwirfoddolwr yn arwain taith o orielau'r amgueddfa am awr, gan archwilio hunaniaethau rhywedd a rhywiol trwy ddetholiad o wrthrychau a arddangosir. Mae'r teithiau wedi bod yn rhedeg ers dros 10 mlynedd ac maent bellach wedi'u hymgorffori yn rhaglen gyhoeddus y V&A. Mae gan y V&A hefyd grŵp gwaith LHDTC, blog o'r enw 'Out in the Museum' a detholiad o eitemau casgliad LHDTCRhA+ ar gael i'w gweld yn eu hystafell ddarllen.

**vam.ac.uk/info/lgbtq#events**



© The Board of Trustees of the Victoria and Albert Museum

# A dash of lavender: celebrating diversity in people and plants Chelsea Physic Garden

Er bod pobl LHDTCRhA+ yn cael eu labelu'n 'annaturiol', mae'r byd naturiol yn llawn nodweddion sy'n herio normau cymdeithasol a binariaethau. Mae'r llwybr hunan-arweiniol hwn o'r ardd yn gwahodd ymwelwyr i ymgysylltu ag amrywiaeth o blanhigion, pryfed a gosodiadau celf i ystyried beth mae naturiol ac annaturiol yn ei olygu. Lansiwyd y llwybr ar gyfer Mis Hanes LHDT ac roedd teithiau wedi'u hamserlennu am bedair blynedd cyn cael ei droi'n llwybr drwy gydol y flwyddyn. Diweddarwyd y dehongliad hefyd i gynnwys gwybodaeth am ecoleg cwiar, gan danlinellu eu hymrwymiad i adrodd straeon LHDTCRhA+.

**chelseaphysicgarden.co.uk**



© Chelsea Physic Garden a Fikayo Adebajo

# Amgueddfa Queer Britain

Amgueddfa Queer Britain yw'r amgueddfa genedlaethol LHDTC+. Ei chenhadaeth yw cadw, adennill ac ysbrydoli hanes a diwylliant LHDTC+. Trwy arddangosfeydd, rhaglenni cyhoeddus a thrwy adeiladu eu casgliad maent yn actifadu dealltwriaeth gyhoeddus o amgylch y materion y mae pobl LHDTC+ wedi'u hwynebu yn y DU o'r gorffennol, yn rhoi gwelededd i'r presennol, ac yn eiriol ac yn ymladd dros gyfiawnder cymdeithasol yn y dyfodol.

**queerbritain.org.uk**




© Queer Britain

# Hanesion Treftadaeth Tân

## Amgueddfa Awyr Agored Chiltern



© Cat Cross

Bob blwyddyn mae'r amgueddfa'n gwahodd cynrychiolwyr o grŵp cymunedol penodol i rannu straeon a meddyliau. Yn 2025, fe wnaethant wahodd pedwar adroddwr straeon cwiar i ddefnyddio geiriau a gwrthrychau o gasgliad yr Amgueddfa i sbarduno straeon ac atgofion. Gwrandawodd y gynulleidfa o 50 o bobl (ac un ci) a thostiodd malws melys a chawsant eu gwahodd i ychwanegu eu hymatebion eu hunain i'r geiriau a'r gwrthrychau. Recordiwyd y straeon, ynghyd â 'vox pops', ar gyfer archif hanes llafar yr Amgueddfa.

**coam.org.uk/blogs/lgbtq-campfire-heritage-stories**

## **Menywod Llangollen**
## Plas Newydd

Yng nghartref gwledig mawreddog yr Arglwyddes Eleanor Butler a Miss Sarah Ponsonby, gall ymwelwyr weld stori eu perthynas wedi'i gosod yng nghyd-destun eu cartref, gan normaleiddio (heb orliwio) eu bywyd gyda'i gilydd. Ymgynghorodd Plas Newydd â phobl LHDTCRhA+ wrth greu'r arddangosfa ac mae hefyd wedi comisiynu artistiaid cwiar i ymateb i'r safle. Maent yn gobeithio, trwy adrodd straeon am ddewrder, annibyniaeth a chyfeillgarwch, y gallant ysbrydoli teimladau o'r fath yn eu hymwelwyr.

**denbighshire.gov.uk/en/leisure-and-tourism/museums-and-historic-houses/plas-newydd-llangollen.aspx**



© Ruth McKew

## **Rainbow Revolution**
## Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon

Yn dilyn arddangosfa dros-dro o arteffactau sy'n dogfennu rhai o'r momentau mwyaf cofiadwy yn y mudiad LHTDRh+ Gwyddelig, creodd yr amgueddfa lwybr sy'n rhedeg drwy orielau parhaol Celfyddydau Addurnol a Hanes ym Marics Collins. Roedd fideos yn adrodd straeon pobl LHDTRh+ yn Iwerddon ar ddangos ac maent wedi cael eu benthyca i amgueddfeydd awdurdodau lleol ledled y wlad. Mae'r Amgueddfa hefyd yn casglu hanesion llafar newydd, gan ddogfennu bywyd LHDTRh+ a'r mudiad hawliau yn Iwerddon.

**museum.ie/en-IE/Museums/Decorative-Arts-History/Exhibitions/Rainbow-Revolution**



© National Museum of Ireland

# **Speak Out archive and exhibition** Archifau Llundain



© The London Archives (City of London Corporation)

Ceisiodd y prosiect hanes llafar LHDTC+ hwn, dan arweiniad y gymuned, recordio cyfweliadau a fyddai'n ategu ac yn herio cofnodion hanesyddol mwy ffurfiol o fywydau a phrofiadau LHDTC+ yn yr archif. Roedd yr arddangosfa ddilynol o ddeunydd archif yn cynnwys wal graffiti yn y gofod arddangos yn arddangos posteri yn diffinio'r acronym LHDTC+.

Gwahoddwyd ymwelwyr i gynnig diffiniadau newydd, herio diffiniadau presennol a rhannu unrhyw beth arall yr oeddent ei eisiau. Mae'r holl sylwadau wedi'u recordio ac maent yn rhan o'r Casgliad Speak Out sydd ar gael i'r cyhoedd.

**thelondonarchives.org/our-work/speak-out-london-diversity-city**

# **Casgliad Llinell Amser LHDTC+ Siroedd Cymru** Amgueddfeydd Whitechapel

Cafodd yr arddangosfa hon yn 2022 am deuluoedd dewisol ei churadu gan bobl draws ac anneuaidd mewn cydweithrediad â chymunedau lleol a Museum of Transology. Rhoddodd yr oriel y gorau i bŵer curadurol, gan drosglwyddo hwn i'r rhai â phrofiad byw perthnasol i'r pwnc. Roedd yr arddangosfa yn deulu dewisol ynddo'i hun: detholiad meddylgar o bortreadau, fideo, gwrthrychau a straeon wedi'u tynnu o wahanol darddiadau, cefndiroedd a phrofiadau, wedi'u gosod yn erbyn cefndir o gartrefi cwiar.

**whitechapelgallery.org/exhibitions/we-get-to-choose-our-families**




© Oriel Whitechapel

# Casgliad Llinell Amser LHDTC+
Siroedd Cymru



© Norena Shopland

Cymru yw'r lle cyntaf yn y byd i gael casgliad cynhwysfawr, hygyrch i'r cyhoedd o hanes LHDTCRhA+ ar gyfer y wlad gyfan (22 sir Cymru ynghyd â sir hanesyddol Gwent). Tyfodd y fenter o hyfforddiant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i gasglu hanes LHDTCRhA+ lleol. Mae'r dogfennau wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol, maent yn agored i fynediad a gellir eu copïo neu eu haddasu, gyda chydnabyddiaeth i'r awduron.

**lgbtqcymru.swansea.ac.uk/2024/02/04/the-welsh-county-lgbtq-timeline-collection/**

# Clwb Hanes Cwiar
Amgueddfeudd Brenhinol Greenwich

Mae'r cyfarfod misol hwn yn yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol yn archwilio hanes cwiar yn y casgliad a'r broses o cwiario'r hanes hwn yn greadigol. Nid oes angen unrhyw gymwysterau na phrofiad hanes ac mae croeso i bawb. Mae'r grŵp wedi cynnal digwyddiadau treftadaeth cwiar yn yr Amgueddfa, wedi creu gwaith celf cydweithredol ar gyfer arddangosfa, wedi lansio methodoleg ymchwil cwiar ac wedi ffurfio côr siantiau môr cwiar. Mae aelodau o staff yr amgueddfa yn mynychu'r grŵp, gan fwydo canlyniadau eu trafodaethau i waith yr Amgueddfa.

**rmg.co.uk/schools-communities/queer-history-club**



© Linnea Meartens

## **Queer Reflections**
## Orielau Cenedlaethol yr Alban

Dewisodd aelodau Rhwydwaith Cydweithwyr Cwiar yr Oriel weithiau celf o bob rhan o'r casgliad sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw yng nghyd-destun cynrychiolaeth LHDTD+. Mae eu myfyrdodau personol ar y gweithiau yn cael eu postio'n gyhoeddus ar wefan yr Oriel. Mae'r rhwydwaith, sy’n cydweithiwr LHDTC+ a chwestiynol, yn eiriol dros weledEDD Cwiar, yn meithrin gweithle croestoriadol a chefnogol gyda mentrau mewnol, yn ogystal â chynghori ar ddatblygu polisïau, dehongli, a phrosiectau digidol fel y gyfres fideo Not Seeing Straight ac Art & Defiance.

**nationalgalleries.org/art-and-artists/features/queer-reflections**

© National Galleries Scotland

## **Identities exhibition**
## Amgueddfa ac Oriel Celf Peterborough

Cafodd y casgliad hwn o bortreadau o bobl cwiar yn Peterborough a'r cyffiniau ei gasglu gan y menywod traws Teddi ac Alexa Vox. Mae'r ffotograffau wedi'u cyfuno â straeon am hoywion lleol hynafol. Mae pob portread yn cael ei arddangos ochr yn ochr â baner cynnydd balchder a baner gysylltiedig sy'n ymwneud â rhywioldeb/hunaniaeth rhywedd y sawl sy'n eu harddangos. Mae'r hyn a ddechreuodd fel prosiect ymgysylltu â'r celfyddydau wedi dod yn arddangosfa barhaol yn yr amgueddfa, wedi'i gynhyrchu gan Q productions a'i gefnogi gan Ymddiriedolaeth Parc Nene a'r NLHF.

**peterboroughmuseum.org.uk/news/identities-installed-at-peterborough-museum-art-gallery**



© Steve Slack

# Darllen pellach ac adnoddau

## Canllawiau a chyngor dehongli LHDCTRhA+

- Pecyn cymorth Mwyhau Lleisiau LHDTC (Queer Britain)
- Canllaw arfer da LHDTC+ ar gyfer Orielau, Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd DU (Cymdeithas yr Amgueddfeydd)
- 'Trans Inclusive Cultural Guidance' ar wella cynhwysiant traws ar gyfer amgueddfeydd, orielau, archifau a sefydliadau treftadaeth (RCMG Caerlŷr)
- Pecyn cymorth 'Gendering the Museum' (James Daybell a Kit Heyam)
- 'How to queer your historic house' (Indigo Dunphy-Smith mewn partneriaeth â 'Queer Heritage and Collections Network' Orielau ac Amgueddfeydd yr Alban)
- 'Challenging Perceptions: interpretation for diversity and inclusion' (Cymdeithas Dehongli Treftadaeth)
- 'LGBTQ+ inclusion in European Museums: an incomplete guide' (Network of European Museum Organisations)
- 'LGBTQ Interpretation Resource Kit' (AASLH)
- 'Interpreting Transgender Stories in Museums' (Association of American Museums LGBTQ Alliance)
- 'Welcoming Guidelines for Museums' (Association of American Museums LGBTQ Alliance)



# Tîm y prosiect

Crëwyd y ddogfen hon gan dîm o ddehonglwyr gydag amrywiaeth o brofiad byw a chefndiroedd proffesiynol yn ddehongliad treftadaeth.

- Mae **Simon Banos** (ef/nhw) yn ddylunydd arddangosfa ac ymchwilydd doethuriaeth at Central Saint Martins, yn archwilio arferion curadurol yn yr oes o ffenomenon 'phygical'. Gyda chefndir mewn peirianneg bensaernïol ac amgylcheddau naratif, mae'n cydweithio â sefydliadau blaenllaw tra hefyd yn curadu a chyflwyno gwaith cyfryngau-newydd a pherfformiadol.
- Mae **Storm Greenwood** (hi/ei) yn artist-ysgolhaig sy'n canolbwyntio yn ei hymcwhil ar praxes celf ffeministaidd, cwiar a dad-drefedigaethol. Mae ganddi hi PhD yn gelf botanegol a llyfr ar y ffordd gyda MAI (Punctum Books). Ochr yn ochr â'i hymchwil, mae hi'n gweithio fel cynhyrchydd dehongli yn y Gerddi Botaneg Frenhinol, Kew.
- Mae **E-J Scott** yn guradur, cynhyrchydd diwylliannol a'n ysgolhaig sy'n canolbwyntio ar alluogi cymunedau sydd yn draddodiadol wedi'i hymylu yn amgueddfeydd i ailganoli ein hanesion drwy ymarfer cyfranogol ymyrrol. Mae E-J yn Uwch Ddarlithydd yn Central Saint Martins, Prifysgol Celfyddydau Llundain. Fe wnaethon nhw sefydlu Amgueddfa Transology yn 2014, sydd bellach y casgliad mwyaf o ddiwylliant materol yn cynrychioli bywydau traws yn y byd.
- Mae **Norena Shopland** (hi/ei) yn hanesydd ac awdur sy'n arbenigo yn ymchwil a hanes LHDTC+. Mae hi'n un o sylfaenwyr o'r fforwm rhwydwaith Hanes LHDT+ Cymru, yn swyddog amrywiaeth Rhwydwaith Hanes Menywod a'n awdur 'A Practical Guide to Searching LGBTQIA Historical Records'. Dyfarnwyd Doethuriaeth Anrhydeddus y Brifysgol Agored i Norena am godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth yng Nghymru.
- Mae **Steve Slack** (ef/ei) yn ymgynghorydd dehongliad treftadaeth a'n awdur 'Interpreting heritage: a guide to planning and practice.' Wrth weithio ar draws amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, orielau a safleoedd awyr agored, mae e'n ceisio creu dehongliad sy'n gynhwysol a'n berthnasol i ymwelwyr. Mae e'n Gymrawd o Gymdeithas Dehongli Treftadaeth.
- Mae **Sabrina Willekens** ((hi/ei) yn dod o'r Almaen a'n byw nawr yn yr Alban. Mae hi wedi gweithio gyda dehongliad, twristiaeth, addysg ac ymarfer am ran fwyaf o'i gyrfa. Mae hi'n angerddol am roi llais i'r rhai sydd wedi cael eu dangynrychioli ac ymylu yn hanes, treftadaeth a diwylliant, yn enwedig menywod, lleiafrifoedd ethnig a chymunedau LHDTCRhA+, er mwyn cyfoethogi ac ehangu dealltwriaeth ddiwylliannol a threftadaeth i bawb.
- Mae **Choon Young Tan** (ef/ei) yn gynghorydd EDI a'n gwirfoddoli fel Pennaeth Strategaeth at Voice ESEA, grŵp di-elw sy'n ymgodi a'n helaethu lleisiau a straeon Dwyrain a De-ddwyrain Asiaidd, wrth ganolbwyntio ar hanes Prydeinig ESEA trwy arddangosfa flynyddol.

Gwnaed y Canllaw Arferion Gorau
hwn yn bosibl diolch i Gronfa
Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Adolygwyr cymheiriaid

- **Stuart Frost,** Head of Interpretation at The British Museum.
- **Damon Mahoney,** Lecturer in Graphic Design at University of Cumbria, Creative Director at Isle Studio and AHI Trustee.
- **Beth Môrafon,** Creative Director at VisitMôr and former Chair of the AHI.

**Cymraeg:** Mair Jones

Llun Clawr: Queer Britain © Rahil Ahmad a Queer Britain

**Cymdeithas Dehongli Treftadaeth**
25 Recreation Way, Kemsley Sittingbourne, Kent ME10 2RD
**admin@ahi.org.uk**

**AHI.org.uk**

Dyluniwyd y canllaw hwn gan
**TheWayDesign.co.uk**

Association
for Heritage
Interpretation